

Rhagfyr 2020

# Adroddiad effaith:

## Cronfeydd Sir y Fflint



# Cynnwys:

## Tuda len

Newyddion

1

Hanes a throsolwg

5

Adroddiad ariannol

7

Crynodeb o'r grnatiau a ddyfarnwyd

11

Astudiaethau achos

16

# Newyddion

## Diweddariad Sefydliad Cymunedol Cymru

Mae hon wedi bod yn flwyddyn anhygoel o anarferol i bawb ym mhob rhan o'r wlad a hefyd i'n tîm yma yn Sefydliad Cymunedol Cymru.

Ganol fis Mawrth, roedd yn rhaid i ni ddechrau gweithio o adre ac, am rai wythnosau, roedd yn hynod aneglur sut y bydden ni'n gallu dal ati fel sefydliad elusennol ar adeg pan oedd mwy o alw nag erioed am y cymorth mae ein harian yn gallu ei roi.

Fis Ebrill, fe ffurfion ni i bartneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Argyfwng Genedlaethol i helpu i ddosbarthu'r arian oedd wedi'u godi trwy ei apêl ledled y DU. Yn ystod y naw mis diwethaf, mae'r arian hwn, cyfanswm o bron i **£4,741,922** miliwn, a **£112,681** ddyfarnwyd i **22** grwpiau yn Sir y Fflint. Y cydweithrediad hwn wedi bod yn hanfodol i ni allu dal ati i helpu cymunedau ledled Cymru.

O hyn, fe lansion ni Gronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru i annog cyfraniadau gan fusnesau mawr ac unigolion o bob rhan o Gymru. Diben y gronfa hon oedd cadw sefydliadau gwirfoddol, y trydydd sector ac elusennol i ddal ati yn ystod a thu hwnt i'r cyfnod clo. Cyfrannodd Admiral, Dŵr Cymru a llawer o'n deiliad cronfeydd yn hael, gan ein galluogi i gefnogi pobl mewn cymunedau oedd angen ein help, yr adeg hynny, yn fwy nag erioed.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, rydyn ni wedi dal ati i dyfu fel sefydliad. Rydyn ni wedi recriwtio dau aelod newydd i'n tîm - Yvonne Pillinger, Swyddog Prosiect Dysgu Gweithredol Pears a Sylfaen a Rhiannon Walsh fel Swyddog Grantiau.

Wrth i'r cyfnod clo lacio'n raddol, mae ein Cronfa Gwytnwch Coronafeirws wedi datblygu'n Gronfa Ymateb ac Adfer, i gydnabod fod gofynion ariannu llawer o sefydliadu wedi newid a bod angen, erbyn hyn, symud ymlaen i ganfod 'normal newydd'. Bwriad y gronfa hon yw cefnogi grwpiau gyda'r heriau y maen nhw eu wynebu wrth geisio adfer a gwneud yn siŵr eu bod yn gallu dal ati i gefnogi eu buddiolwyr yn y ffordd iawn, a chan gofio hefyd bod eu hymddiriedolwyr, timoedd staff a gwirfoddolwyr, angen cefnogaeth ychwanegol.



**KATY HALES**  
Rheolwr, Rhodd  
dan Reolaeth  
Unigolion

Un o'r grwpiau rydyn ni wedi'u cefnogi yw Cwmni Diddordeb Cymunedol 1125, cwmni nid er elw yn Sir y Fflint sy'n gweithio gyda rhai o bobl ifanc mwyaf bregus a difreintiedig Cymru.

Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar gysylltu â phobl ifanc a datblygu'r sgiliau allweddol a fydd yn eu helpu mewn bywyd, megis magu hyder, cyfathrebu, gwaith tîm - a'u galluogi i gyrraedd eu potensial.

Dywedodd Cwmni Diddordeb Cymunedol 1125 wrthym ni fod y bobl ifanc y mae'r cwmni'n gweithio gyda nhw wedi cael pethau'n anodd iawn yn ystod y pandemig, yn enwedig gan eu bod, hyd yn oed cyn hynny, yn teimlo wedi'u heithrio o gymdeithas oherwydd diffyg addysg, tlodi neu ddirgaredd. Roedd Covid-19 wedi cryfhau'r teimladau hynny ac roedd llawer yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, gorbryder ac iselder.

Roedd rhai o'r bobl ifanc yn cael trafferth i ddeall canllawiau'r Llywodraeth felly roedd 1125 yno i'w cefnogi a'u cadw rhag mynd i ddwylo'r heddlu.

Ar ddechrau'r cyfnod clo, symudwyd at weithgareddau cysylltu ar lein, cadw llygad yn ddyddiol a pharatoi a dosbarthu pecynnau gweithgaredd.

Roedd gallu daprau ar lein yn hanfodol gan nad oedd gwasanaethau ieuenctid eraill yn yr ardal wedi gallu addasu. Helpodd y grant o £4,250 i 1125 gadw cysylltiad â phobl ifanc nad oedd ganddyn nhw neb arall i'w helpu.

## Rhaglenni newydd

### FareShare

Yn darparu grantiau i sefydliadau sy'n rhoi cymorth i fanciau bwyd ledled Cymru.

### Cronfa Gareth Griffiths

Cefnogi pobl ifanc mewn chwaraeon ac addysg ym Mro Morgannwg a Chwm Rhondda.

### Cronfa Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg

Cefnogi pobl ifanc ledled Gorllewin Morgannwg.

## Newyddion

### Cyfeillion Sefydliad Cymunedol Cymru

Yn ogystal â'r rhaglenni newydd, uchod, rydyn ni hefyd wedi lansio Cyfeillion Sefydliad Cymunedol Cymru

Grŵp dyngarol dethol yw hwn sy'n helpu i newid bywydau yng Nghymru.

Mae'r Cyfeillion yn dangos eu hymrwymiad i genedl decach, fwy cyfiawn, yn annog cydweithio fel cymuned ac yn cefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen.



### Adroddiad yn Uchel ac yn Groch

Mae elusennau a grwpiau cymunedol yng Nghymru eisiau i arianwyr roi blaenoriaeth i arian craidd a phartneriaethau tymor hirach.

Dyma'r neges gref, glir a ddaeth allan o sgwrs fawr Sefydliad Cymunedol Cymru gyda'r sector.

Bu tîm Sefydliad Cymunedol Cymru'n cyfarfod ac yn siarad gyda thros 100 o grwpiau cymunedol ac elusennau ar draws y wlad i wrando ar beth sy'n wirioneddol o bwys iddyn nhw a sut maen nhw'n meddwl y gallwn ni gefnogi eu gwaith orau. Cafodd y canlyniadau eu cyhoeddi yn ein hadroddiad Yn Uchel ac yn Groch.



Community  
Foundation  
Wales

**Loud and Clear**

Our big funding conversation  
with the third sector in Wales



## Eich cefnogaeth

Fel aelodau o staff Sefydliad Cymunedol Cymru, does yna byth ddigon o amser yn ein gwaith bob dydd i ni fynegi ein gwerthfawrogiad i chi, ein rhoddwyr hael, sy'n gwneud gwaith Sefydliad Cymunedol Cymru'n bosibl.

Rydyn ni'n deall fod yna fyrdd a mwy o ofynion ar eich amser a'ch adnoddau. Mae eich ymrwymiad a'ch parodrwydd i ymuno â ni i wneud y byd yn lle gwell yn cael ei wirioneddol werthfawrogi.

Diolch i chi, gallwn ni ddal ati i gynnig cefnogaeth i rai o bobl mwyaf bregus Cymru.

Drwy weithredu'n uniongyrchol gyda grantiau o'ch cronfa chi, gallwn ni helpu i wneud iawn am y toriadau yng nghyllid llywodraeth leol a chael effaith bositif ac ar unwaith ar gymunedau Cymru.

Cofiwch fy ffonio i unrhyw adeg ar **02920 379 580** os hoffech chi holi am unrhyw beth, i drafod beth ydym ni'n ei wneud neu i glywed mwy am y prosiectau rydyn ni'n eu cefnogi.

*Katy Hales*

**Rheolwr, Rhodd dan Reolaeth Unigolion**

# Hanes a throsolwg

## Hanes

Sefydlwyd Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint fis Medi 2013 yn dilyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i drosglwyddo asedau nifer o gronfeydd ymddiriedolaethau i gronfa 'ymbarél' newydd yn Sefydliad Cymunedol Cymru.

Cafodd y gronfa ei lansio'n swyddogol fis Tachwedd 2013 yn Airbus, ym Mrychdwn. Gwerth y gronfa pan gafodd ei throsglwyddo oedd £178,998.

Fis Mawrth 2018, cafodd Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Clwyd hefyd ei throsglwyddo i Sefydliad Cymunedol Cymru. Gwerth y gronfa pan gafodd ei throsglwyddo oedd £537,497.

Cafodd Sefydliad Cymunedol Cymru gyfarwyddid i gynnal yr elfen o gyflwyno grantiau yn Sir y Fflint drwy ddefnyddio sgiliau'r panel oedd eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer y Gronfa Waddol Gymunedol.

Yn 2019, yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Sir Wrecsam, rydyn ni hefyd wedi ymgymryd â'r elfen o gyflwyno grantiau ar ran Wrecsam, gan ddefnyddio sgiliau'r panel a sefydlwyd ar gyfer Cronfa Waddol Gymunedol Wrecsam.

Rydyn ni'n talu i Gyngor Sir Ddinbych am gyflwyno grantiau, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych sy'n gofalu am yr elfen o gyflwyno grantiau'r gronfa ar gyfer Sir Ddinbych.

Er nad oedd yn drosglwyddiad Cyngor Sir, yn 2013 trosglwyddwyd i ni Gronfa Lliniaru Angen Penarlâg a'r Cylch, gwerth £255,594.

Mae'r gwaith o gyflwyno grantiau ar gyfer y gronfa'n cael ei reoli'n fewnol gan dîm grantiau Sefydliad Cymunedol Cymru. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'r Gronfa'n cefnogi'r rhai ym Mhenarlâg a'r Cylch a allai fod mewn argyfwng a / neu yn fregus ac yn ei chael yn anodd byw ar adnoddau prin.



ANDREA POWELL  
Cyfarwyddwr Rhaglenni  
(Dirprwy Prif  
Weithredwr)



## Trosolwg

Mae grantiau Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint a Chronfa yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint (Cronfeydd Sir y Fflint) yn cael eu dyfarnu ddwywaith y flwyddyn.

Mae gan y gronfa ei phanel grantiau ei hunan, gyda phum aelod, pob un â gwybodaeth a phrofiad da o'r anghenion yn Sir y Fflint. Mae'r aelodau'n cael eu henwebu gan y Cyngor ac yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd o leiaf.

Yr aelodau presennol yw:

- Karen Armstrong, Swyddog Cyngor Sir y Fflint
- Trevor Jones, Swyddog Cyngor Sir y Fflint
- Y Cyngorydd Christopher Bithell, Cyngor Sir y Fflint
- Y Cyngorydd Clive Carver, Cyngor Cymuned Penarlâg a Chyngor Sir y Fflint
- Heather Hicks, Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint.

Mae'r panel yn cael ei gadeirio gan uwch swyddog o staff Sefydliad Cymunedol Cymru. Cyflwynir argymhellion y panel i fwrdd ymddiriedolwyr Sefydliad Cymunedol Cymru sy'n adolygu ac yn cadarnhau penderfyniadau grantiau. Mae barn a gwybodaeth aelodau'r panel wedi bod yn amhrisiadwy ac yn sicrhau fod pob penderfyniad grant yn cael ei gymryd yn lleol a chan wybod am anghenion a blaenoriaethau'r ardal.

Mae telerau ac amodau caeth ar bob grant sy'n cael ei ddyfarnu ac mae pob un yn cael ei fonitro ar ôl deuddeg mis i wneud yn siŵr y cydymffurfir ag amodau'r grant ac i fesur effeithiau'r grant ar unigolion a chymunedau.



# Adroddiad ariannol

## Portffolio buddsoddi

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y buddsoddiadau Sefydliad Cymunedol Cymru yn werth £15 miliwn. Gostyngodd gwerth y buddsoddiadau o £1.4 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol.

Roedd hyn o ganlyniad i ansicrwydd enfawr yn y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fis Chwefror a fis Mawrth pan oedd yr argyfwng Covid-19 yn cychwyn. Prisiodd y marchnadoedd yn gyflym y dirwasgiad oedd o'u blaenau gan arwain at un o'r gostyngiadau mwyaf sydyn yn hanes y farchnad stoc. Ers hynny, mae'r marchnadoedd wedi adfer yn dda wrth i'r sefyllfa economaidd ddod yn gliriach ac wrth i fanciau canolog a llywodraethau ar draws y byd eu cefnogi.

Erbyn hyn, mae'r portffolios wedi adfer y cyfan o'r colledion hyn yn y flwyddyn ariannol newydd - ar 30 Tachwedd 2020, ar ôl tynnu gwerth y cronfeydd newydd a drosglwyddwyd i gael ei rheoli gan Sefydliad Cymunedol Cymru, roedd y portffolios yn cael eu prisiau'n £15.78 miliwn.

Gan ei bod yn gronfa waddol, mae Sefydliad Cymunedol Cymru'n ystyried ei fuddsoddiadau yn y tymor hir ac mae'n gallu goroesi ansefydlogrwydd tymor byr er mwyn cyrraedd ei amcanion yn y tymor hir. Mae lefel y risg buddsoddi'n cael ei adolygu'n rheolaidd gan yr Ymddiriedolwyr a'u dau reolwr buddsoddi a'r risg yn cael ei liniaru'n briodol drwy symud y cronfeydd i ddau bortffolio gydag amrywiaeth dda.

Ar ôl adolygiad o'r rheolwyr buddsoddi yn 2018, penderfynwyd symud y buddsoddiadau o Rathbones a M&G. Erbyn hyn, maen nhw'n cael eu buddsoddi trwy Brewin Dolphin a CCLA.

Mae'r Sefydliad yn gweithredu polisi enillion cyfan ar gyfer ei bortffolio buddsoddi. Mae hyn yn golygu bod unrhyw incwm yn cael ei ail-fuddsoddi, gan arwain at dwf cryfach yn y gronfa yn y tymor hir. Bob blwyddyn mae'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu ar ganran o werth marchnadol y gronfa i fod ar gael ar gyfer rhoi grantiau. Gall y ganran hon amrywio yn dibynnu ar iechyd y gronfa, y galw am gyllid ac amodau cyfredol y farchnad. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi dosbarthu 3.5% ar gyfartaledd.

*Catherine Jewsbury*

Rheolwr Cyllid

## Cynllun Teiran Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru

31/06/2019 £	Cronfa Waddol	31/03/2020 £
528,091	Gwerth agoriadol y Gronfa	558,858
1,726	Arian parod a fuddsoddiwyd	2,918
(2,919)	Trosglwyddiadau ar gyfer grantiau	(7,208)
(8,593)	Ffi rheoli	(9,309)
40,553	Enillion/(Colledion) ar fuddsoddiadau	(30,822)
<u>558,858</u>	Gwerth clo y Gronfa	<u>514,437</u>

31/06/2019 £	Cronfa Gwneud Grantiau	31/03/2020 £
	Incwm	
12,550	Difidend	-
2,919	Trosglwyddiad o'r gwaddol	7,208
-	Grant a ddychwelwyd o Wrecsam*	7,462
<u>15,469</u>		<u>14,670</u>

31/06/2019 £	Gwariant	31/03/2020 £
15,469	Grantiau	14,670

31/06/2019 £	Balans ar ddiwedd y flwyddyn	31/03/2020 £
nil		nil

Dim ond ar gyfer ei ddefnyddio yn ardal Wrecsam y mae'r grant a ddychwelwyd gan Wrecsam.

## Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint

31/06/2019 £	Cronfa Waddol	31/03/2020 £
203,879	Gwerth agoriadol y Gronfa	213,253
667	Arian parod a fuddsoddiwyd	1,113
(3,690)	Trosglwyddiadau ar gyfer grantiau	-
(3,259)	Ffi rheoli	(3,552)
15,656	Enillion/(Colledion) ar fuddsoddiadau	(11,960)
<u>213,253</u>	Gwerth clo y Gronfa	<u>198,854</u>

31/06/2019 £	Cronfa Gwneud Grantiau	31/03/2020 £
	Incwm	
3,690	Trosglwyddiad o'r gwaddol	-
750	Grant a ddychwelwyd o Wrecsam*	-
<u>4,440</u>		<u>-</u>

31/06/2019 £	Gwariant	31/03/2020 £
4,440	Grantiau	

31/06/2019 £	Balans ar ddiwedd y flwyddyn	31/03/2020 £
dim		dim

Ni ddyfarnwyd unrhyw grantiau o'r gronfa yn ystod 2019/20 gan y bu raid gohirio'r panel oherwydd y pandemig Cornoafeirws. Lle'r oedd yn bosibl, dyfarnwyd grantiau o Gronfa Gwynnwch Coronafeirws Cymru. Pan nad oedd hyn yn bosibl, mae grantiau wedi'u dyfarnu yn y flwyddyn gyfredol.

## Balans ar 30 Medi 2020

	Deddf yr Eglwys yng Nghymru Clwyd	Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint
Cronfa Waddol	590,243	228,157
Ar gael ar gyfer grantiau	20,000	7,985
Grantiau ad dalwyd hyd yma	0	200
Trosglwyddiad i Sir Ddinbych	5,070	-

# Crynodeb o'r grantiau a ddyfarnwyd

## Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint

Dyddiad y Panel	Teipio	Ymgeisydd grant	Crynodeb o'r prosiect	Swm
Mawrth 19	Unigolyn	Gwryw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200
Hydref 19	Grŵp	Music in Hospitals	Roedd Music in Hospitals wedi cynnal pedwar cyngerdd o gerddoriaeth fyw i bobl unig adeg y Nadolig. Cynhaliwyd y cyngerddau mewn Cartrefi Gofal yn Sir y Fflint a chafodd y cynulleidfaoedd gyfle i ymlacio a chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol i'w helpu i leihau'r risg o fod ar eu pen eu hunan ac yn unig.	£1,000
Hydref 19	Grŵp	Kids Cancer Charity	Mae'r Elusen yn cynnig gwyliau i deuluoedd sydd â phlant yn dioddef o Gancr. Mae hefyd yn cynnig therapi chwarae a chefnogaeth profedigaeth. Mae'r prosiect yn benodol ar gyfer ariannu Cyfnodau Ysbaid yn eu pedair carafán sefydlog ar arfordir gorllewin a gogledd Cymru ar gyfer hyd at naw teulu o Sir y Fflint. Mae'r plant yn cael profiadau addysgol a dysgu gydol oes drwy'r gwyliau.	£1,000
Hydref 19	Unigolyn	Benyw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200

**Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd 2018/19 £2,400**

Hydref 20	Grŵp	St Bartholomew's Church	Mae'r prosiect hwn yn galluogi aildrefnu adeilad yr eglwys i allu cynnal rhagor o weithgareddau ar gyfer cymunedau'r ardal. Roedd yn rhaid aildrefnu'r prosiect oherwydd cyfyngderau Covid a ffuriwyd canolfan alw heibio gyda phellter cymdeithasol er mwyn i'r gymuned allu dod at ei gilydd.	£1,000
-----------	------	-------------------------	---	--------

**Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd 2019/20 £1,000**

**Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd ers yr adroddiad effaith diwethaf £3,400**

## Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint

Dyddiad y Panel	Teipio	Ymgeisydd grant	Crynodeb o'r prosiect	Swm
Mawrth 19	Grŵp	Community Heart Productions	Mae Plastic Free Dee'n gweithio gyda phobl ifanc trwy'r celfyddydau i archwilio ysbwriel, llygredd plastig a malurion morol ac yn galluogi dinasyddiaeth rhagweithiol.	£1,000
Mawrth 19	Grŵp	Dangerpoint	Cynhaliodd Dangerpoint gyfres o sesiynau hyfforddi diogelwch ac asesu risg ar gyfer plant a phobl ifanc o ysgolion Sir y Fflint i gefnogi byw'n iach trwy addysg ryngweithiol. Galluogodd y prosiect ddisgyblion o chwe ysgol yn Sir y Fflint i fynychu DangerPoint trwy ariannu costau cludiant i gymryd rhan mewn taith ddiogelwch addysgol i gefnogi byw'n iach i blant a phobl ifanc oedran ysgol.	£840
Mawrth 19	Grŵp	Treuddyn Under 5's	Mae Treuddyn Under 5's yn darparu cyfleoedd i blant dyfu a bwyta eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain a helpu plant a'u teuluoedd i sefydlu arferion bwyta'n iach yn gynnar. Roedd y plant yn cael lle ar randir i dyfu a meithrin eu llysiau a'u ffrwythau eu hunain. Bydd hynny'n cryfhau ei nod ac yn ein galluogi i addysgu'r plant yn ymarferol ynghylch maeth ac o ble mae bwyd yn dod.	£500
Mawrth 19	Unigolyn	Gwryw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200
Mawrth 19	Unigolyn	Benyw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200
Mawrth 19	Unigolyn	Benyw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200
Hydref 19	Unigolyn	Gwryw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200

**Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd 2018/19    £3,140**

Dyddiad y Panel	Teipio	Ymgeisydd grant	Crynodeb o'r prosiect	Swm
Hydref 20	Grŵp	Friends of Ysgol Maes Hyfryd	Mae'r prosiect yn cefnogi datblygiad addysgol unigolion gydag anhwylder prosesu synhwyrol. Mae'n canolbwyntio ar sgiliau allweddol cyfathrebu, gwybyddiaeth, annibyniaeth, datblygiad corfforol, hunan ofal ac ymatebion synhwyrol, pob un yn sgil ellir ei throsglwyddo ac sy'n mynd i fod o ddefnydd i ddisgyblion y tu hwnt i'r ysgol. Roedd yr arian yn talu costau adnewyddu a gosod y gyllideb.	£956
Hydref 20	Grŵp	North Wales Science	Mae'r prosiect yn darparu gweithdai mewn pedair ysgol gynradd yn ardal y Fflint i fyfyrwyr cyfnod allweddol 2 a'u teuluoedd. Mae'r prosiect e-Bug yn annog byw'n iach drwy gynnwys plant ac oedolion mewn gweithgareddau ymarferol sy'n dangos pwysigrwydd ymarferion hylendid da ac yn dangos i bawb sut i ddefnyddio gwrthfotig yn iawn. Mae'r prosiect e-Bug yn datblygu'n addysgol blant oed ysgol, rhwng 7-11 yn bennaf, gan ddefnyddio technegau addysgu anffurfiol.	£1,000
Hydref 20	Unigolyn	Gwryw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200
Hydref 20	Unigolyn	Gwryw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200
Hydref 20	Unigolyn	Benyw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200
Hydref 20	Unigolyn	Benyw	Bwrsariaeth chwaraeon	£200

**Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd 2019/20    £2,756**

**Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd ers yr adroddiad effaith diwethaf    £5,896**



## Cronfa Lliniaru Angen Penarlâg a'r Cylch

Teipio	Ymgeisydd grant	Summary	Swm
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£750
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£199
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£660
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£540
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£500
Unigolyn	Gwryw	Grant argyfwng	£550
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£630
Unigolyn	Gwryw	Grant argyfwng	£550
Unigolyn	Gwryw	Grant argyfwng	£550
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£760
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£1,600
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£100
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£199
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£199

Type	Ymgeisydd grant	Crynodeb	Swm
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£199
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£398
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£199
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£199
Unigolyn	Gwryw	Grant argyfwng	£200
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£287
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£2,100
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£1,300
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£1,037
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£380
Unigolyn	Gwryw	Grant argyfwng	£735
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£615
Unigolyn	Gwryw	Grant argyfwng	£690
Unigolyn	Gwryw	Grant argyfwng	£713
Unigolyn	Benyw	Grant argyfwng	£190

**Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd ers yr adroddiad effaith diwethaf **£17,029****


# Astudiethau achos

## Defnyddio cerdd i godi'r ysbryd

Bwriad Cerdd mewn Ysbytai yw codi'r ysbryd drwy gerddoriaeth mewn mannau gofal iechyd ac mae wedi derbyn grant i'w galluogi i gynnal cyngerdd Nadolig ar gyfer trigolion Cartref Gofal Rhiwlas, y Fflint.

Cafodd trigolion y cartref gofal gyfle i gysylltu gyda'r perfformwyr ac â'i gilydd drwy gasgliad amrywiol o gerddoriaeth Gymraeg, gwerin a chanu cynulleidfaol yn cael eu perfformio ar wahanol offerynnau gan gynnwys gitâr, piano, sacsoffon, clarinét a tiwba.

Roedd y cyngerdd yn helpu i ysgogi cof y trigolion ac yn eu galluogi i hel atgofion a rhannu profiadau eu gorffennol gyda'u cyd drigolion a staff.




"Rhoddodd y prosiect gyfle i'r trigolion hŷn gymdeithasu gyda thrigolion eraill, aelodau o staff a cherddorion yn ystod y sesiwn, a fydd yn cael dylanwad tymor hir ar eu llesiant a'u hiechyd meddwl."

## Meithrin sêr chwaraeon y dyfodol

Cafodd Jessica, egin chwaraewr badminton, £200 trwy Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint i'w galluogi i fynd i wersyll i'w helpu i wella'i gallu technegol a'i ffitrwydd mewn badminton.

Rhoddodd y grant hwn gyfle i Jessica ennill profiad gwerthfawr yn ogystal â rhoi cyfle iddi gyfarfod â phobl newydd a'r chwaraewyr y mae'n dyheu am eu hefelychu.



"Heb y grant yma, rwy'n amau a fyddwn i wedi gallu fforddio'r daith o gwbl, felly, rwy'n eithriadol o ddiolchgar i Sefydliad Cymunedol Cymru am fy helpu i ddatblygu ymhellach yn y gêm rwy'n ei charu."

## Dysgu pobl ifanc am ddiogelwch

Mae Dangerpoint yn dysgu plant a phobl ifanc am ddiogelwch er mwyn lleihau'r achosion o farwolaethau ac anafiadau trwy ddamwain a hyrwyddo iechyd, llesiant a diogelwch cymunedol.

Cafodd £840 i alluogi disgyblion o chwe ysgol yn Sir y Fflint fynychu eu canolfan ddiogelwch rhyngweithiol drwy dalu costau cludiant i'r ganolfan. Heb y cymorth ariannol, ni fyddai'r plant hyn wedi gallu mynd i ganolfan ddiogelwch rhyngweithiol DangerPoint.

Cafodd y plant lawer o hwyl a gwybodaeth ar y daith ddiogelwch addysgol ac roedd yr athrawon yn llawn edmygedd o'r trafod gyda'r disgyblion a'r dyfnder gwybodaeth oedd yn cael ei drosglwyddo, gydag un athro'n dweud bod y cyfan 'wedi'i drefnu ac yn trosglwyddo gwybodaeth yn hynod o dda'. Rhyngweithio rhagorol a llawer iawn o drafod!


## Darparu cefnogaeth hanfodol i deuluoedd mewn angen

Ar ôl i berthynas agos farw, ysgwyddodd y teulu estynedig y gwaith o fod yn ofalwyr i'r plant ifanc rhag iddyn nhw orfod mynd i'r system gofal.


Yn ogystal â gorfod dygymod a'r bwlch a'r effaith enfawr o golli aelod agos o'r teulu, roedd yn rhaid i'r teulu roi'r gorau i'w gwaith i ofalu am y plant, gan eu cael eu hunain angen cymorth ariannol i brynu nwyddau hanfodol ac i helpu i wneud eu cartref yn gyfforddus i'r plant.

Cafodd y teulu grant gan Gronfa Lliniaru Angen Penarlâg a'r Cylch i brynu rhai nwyddau hanfodol ar gyfer y cartref a dillad i'r plant.

Roedd y grant wedi diwallu angen gwirioneddol ar adeg anodd ac wedi lliniaru'r pwysau ariannol ychwanegol ar y teulu.



"Fe gefais i andros o lot o hwyl heddiw ryw'n teimlo'n llawer mwy ymwybodol nag erioed o'r hyn sydd o'm cwmpas ac rwy'n siŵr y bydda i'n cofio am heddiw am flynyddoedd lawer."



"The family is providing a safe and loving home for the children in which to minimise the already over whelming grief that the family are going through. The funding from this grant will help the family to move forward without added worry and stress."



**Community Foundation Wales  
St Andrews House  
24 St Andrews Crescent  
Cardiff  
CF10 3DD**

**02920 379580**

**[www.communityfoundationwales.org.uk](http://www.communityfoundationwales.org.uk)**



**[info@communityfoundationwales.org.uk](mailto:info@communityfoundationwales.org.uk)**



**[@foundationwales](https://twitter.com/foundationwales)**



**[@walescf](https://www.facebook.com/walescf)**

**Charity Number 1074655**

**Company Number 03670680**

**Community Foundation Wales is the trading name of The Community Foundation in Wales**